# Ymchwiliad i gŵyn

# yn erbyn Cyngor Sir y Fflint

Adroddiad gan
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
Achos: 201900014

**Cynnwys** | **Tudalen**


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 1 |
| Crynodeb | 2 |
| Y gŵyn | 5 |
| Ymchwiliad | 5 |
| Y ddeddfwriaeth berthnasol | 5 |
| Y digwyddiadau cefndir | 7 |
| Tystiolaeth y Landlord | 13 |
| Tystiolaeth y Cyngor | 13 |
| Dadansoddiad a Chasgliadau | 14 |
| Argymhellion | 19 |

## Cyflwyniad

Cyhoeddir yr adroddiad hwn o dan adran 16 o Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005.

Y Yn unol â darpariaethau'r Ddeddf, mae'r adroddiad yn ddienw er mwyn sicrhau, hyd y bo modd, bod unrhyw fanylion a allai olygu bod modd adnabod unigolion wedi cael eu newid neu eu hepgor.  Mae'r adroddiad felly'n cyfeirio at yr achwynydd fel "y Landlord", ac at y tenant a effeithiwyd fel "Mr R".

## Crynodeb

Cwynodd Landlord nad oedd Cyngor Sir y Fflint, rhwng 2014 a 2019, wedi cymryd camau amserol a phriodol i ddelio â chyfleuster golchi ceir a oedd yn achosi Niwsansau Statudol oherwydd sŵn a ysgeintiad dŵr/cemegau a oedd yn effeithio ar denant y Landlord, Mr R a'i fod hefyd wedi mynd yn groes i reolaethau cynllunio. Cwynodd y Landlord hefyd nad oedd y Cyngor wedi ymchwilio nac ymateb yn briodol i'w gŵyn ac yn unol â'i Bolisi Cwynion Corfforaethol.

Canfu'r Ombwdsmon er iddo ddod yn ymwybodol mor bell yn ôl â 2014 fod y cyfleuster golchi ceir yn achosi Niwsans Statudol, nid oedd y Cyngor wedi agor ffeil achos briodol tan 18 mis yn ddiweddarach ac ni chyhoeddodd Hysbysiad Atal am 13 mis arall. Er bod y cyfleuster golchi ceir wedi parhau i weithredu ac achosi'r Niwsans Statudol, a oedd yn mynd yn groes i'r Hysbysiad Atal, ni chymerodd y Cyngor gamau pellach. O ganlyniad, bu'n rhaid i Mr R ddioddef lefelau sŵn ac ysgeintiad dŵr cyson, a oedd yn amharu'n sylweddol arno ers nifer o flynyddoedd. Roedd hyn yn anghyfiawnder sylweddol i'r tenant a hefyd i'r Landlord, o ganlyniad i rwymedigaethau'r Landlord i'w denant a'i hawl, o dan Erthygl 18 o Ddeddf Hawliau Dynol 1998, i fwynhau ei gartref mewn tawelwch a heddwch.

Canfu'r Ombwdsmon fod y Cyngor yn ymwybodol ers o leiaf 2012 nad oedd gan y cyfleuster golchi ceir ganiatâd cynllunio priodol, ond nid oedd ganddo ddim cofnodion cynllunio bron cyn Awst 2018. Roedd methiannau hefyd o ran cyfathrebu a chydweithredu rhwng adrannau. Roedd diffyg cofnodion ynghyd â diffyg gweithredu ar ran y Cyngor yn y 5 mlynedd cyn Awst 2018 yn awgrymu nad oedd y Cyngor wedi ystyried yn fanwl a oedd am gymryd camau gorfodi yn erbyn y cyfleuster golchi ceir ac roedd hynny'n cyfrif fel camweinyddu. O ganlyniad, ni allai'r Cyngor egluro'r rhesymau a oedd wrth wraidd ei weithredoedd (a diffyg gweithredu) a hefyd, roedd yn amhosibl delio â'r gŵyn yn llawn ac i archwilio a gwerthuso hanes yr achos yn yr Adran Gynllunio.

Canfu'r Ombwdsmon hefyd nad oedd y Cyngor wedi ymateb yn briodol i gwynion y Landlord a'u huwchgyfeirio pan ofynnwyd iddo am gymorth i wneud cwyn ffurfiol. Nid oedd gan neb ychwaith berchnogaeth sefydledig ac eglur ar lefelau uwch yn y Cyngor, ac roedd hynny wedi'i waethygu gan yr amser hir y

parhaodd y methiannau a'r diffyg sylw i'r anawsterau roedd Mr R yn eu hwynebu.  O ganlyniad, ni fu ymchwiliad priodol i'r gŵyn ac ni chafodd y Landlord ymateb ystyrlon i'w bryderon.

Cytunodd y Cyngor y byddai, o fewn mis i adroddiad y Cyngor yn:

(a) Atgoffa staff perthnasol ar bob lefel yn y Cyngor o bwysigrwydd delio'n briodol â gohebiaeth, gan gynnwys cyfeirio unigolion sydd am wneud cwyn ffurfiol at y Tîm Cwynion Corfforaethol.

(b) Cynnig ymddiheuriad ystyrlon, yn ysgrifenedig, i'r Landlord ynghyd ag iawndal ariannol o £1000 i gydnabod y methiannau wrth ddelio â chwynion, ac amser a thrafferth y Landlord i olrhain y gŵyn am o leiaf 5 mlynedd.

(c) Cynnig ymddiheuriad ystyrlon, yn ysgrifenedig, i Mr R, ynghyd ag iawndal ariannol o £2,500 am y methiant i ddelio â'r Niwsansau Statudol ac i gydnabod amlygiad parhaus a maith Mr R i lefelau annerbyniol o sŵn a dŵr yn ysgeintio dros gyfnod o 5 mlynedd neu fwy.

Ym mis Ionawr 2019 adolygodd a diweddarodd y Cyngor ei bolisi ar Orfodaeth Cynllunio.  Cytunodd y Cyngor hefyd y byddai, o fewn 3 mis i adroddiad yr Ombwdsmon, yn:

(a) Rhannu'r adroddiad hwn a'i ganfyddiadau â staff perthnasol yn yr Adrannau Cynllunio, yr Amgylchedd a Chyfreithiol yn ogystal ag Arweinydd y Cyngor a'r Aelod Cabinet dros Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd, y Pwyllgor Cynllunio a Rheoli Datblygu a'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Amgylcheddol

(b) Canfod pa bwerau sydd ar gael o hyd iddo i ddatrys y materion a sicrhau ei fod yn gweithredu'r pwerau hynny'n llawn fel sy'n briodol i gyflawni datrysiad terfynol

(c) Adolygu ei Bolisi Gorfodaeth Gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd, i sicrhau ei fod yn parhau'n berthnasol, yn effeithiol ac yn cydymffurfio â chanllawiau, deddfwriaeth ac arferion gorau Llywodraeth Cymru, gyda phwyslais penodol ar Niwsansau Statudol.

(d) Datblygu trefniadau gweithdrefnol ffurfiol ar gyfer cydweithrediad rhwng adrannau i wella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd cydweithredu rhwng adrannau, gyda phwyslais ar yr Adrannau Cynllunio, Cyfreithiol ac Iechyd yr Amgylchedd

(e) Adolygu’r Polisi Cwynion i sicrhau ei fod yn amlwg pwy ddylai fod â phrif gyfrifoldeb am ymchwilio ac ymateb i gwynion, yn enwedig pan fydd materion yn ymwneud â gwahanol adrannau o’r Cyngor

(f) Myfyrio ar sut y gellir ymgorffori ystyriaeth i hawliau dynol yn ei arferion gweithio wrth benderfynu a yw am gymryd camau gorfodi, gyda chyfeiriad penodol at reolaeth gynllunio ac ymchwiliadau i Niwsansau Statudol

(g) Adolygu ei sianelau cyfathrebu mewnol ac uwchgyfeirio i sicrhau bod staff yn gallu mynegi pryderon yn ystod eu gwaith o ddydd i ddydd a all wedyn gael eu rheoli mewn ffordd adeiladol, i annog perchnogaeth ac atebolrwydd gan osgoi “diwylliant beio”.

## Y Gŵyn

1. Cwynodd Corff A ("y Landlord") nad oedd Cyngor Sir y Fflint ("y Cyngor"), rhwng 2014 a 2019, wedi cymryd camau amserol a phriodol i ddelio â:

   a) Niwsans Statudol a ganfuwyd yn gysylltiedig â:

      i. Sŵn
      ii. Dŵr/cemegau yn ysgeintio

   b) Torri rheolaeth gynllunio

2. Cwynodd y Landlord hefyd nad oedd y Cyngor wedi ymchwilio nac ymateb yn briodol i'w gŵyn ac yn unol â'i Bolisi Cwynion Corfforaethol ("y Polisi Cwynion").

## Ymchwiliad

3. Cefais sylwadau a chopïau o ddogfennau perthnasol gan y Cyngor. Nid oedd braidd dim cofnodion ar gael gan yr Adran Gynllunio o'r cyfnod dan sylw ac felly roedd yn rhaid imi ganfod cymaint o wybodaeth â phosibl am ei weithredoedd o gofnodion yr Adran Iechyd yr Amgylchedd. Rwyf wedi ystyried yr wybodaeth oedd ar gael ynghyd â'r dystiolaeth a gafwyd gan y Landlord. Nid wyf wedi cynnwys pob manylyn yr ymchwiliwyd iddo yn yr adroddiad hwn, ond rwyf yn fodlon na chafodd unrhyw beth arwyddocaol ei esgeuluso.

4. Cafodd y Landlord a'r Cyngor ill dau gyfle i weld a chyflwyno sylwadau ar fersiwn drafft o'r adroddiad hwn cyn cyhoeddi'r fersiwn terfynol.

## Y ddeddfwriaeth berthnasol

5. Mae Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn rhoi pwerau dewisol i'r Cyngor i orfodi rheoliadau rheolaeth gynllunio ac i gymryd camau gorfodi. Gellir cyhoeddi Hysbysiad Tramgwydd Cynllunio i gael gwybodaeth fel rhag-amod cyn cyhoeddi Hysbysiad Gorfodi Cynllunio. Os bydd Hysbysiad Gorfodi Cynllunio'n cael ei gyhoeddi, gall Hysbysiad

Stop gael ei gyhoeddi hefyd i atal unrhyw un neu bob un o’r gweithgareddau sy’n gysylltiedig â’r toramod dan sylw.  Fodd bynnag, mae cyfyngiadau ar ba bryd y gellir defnyddio Hysbysiad Stop a pha weithgareddau y gellir eu gwahardd.

6. Dywed Nodyn Cyngor Technegol 9: Gorfodi Rheolaeth Gynllunio 1997 Canllawiau Cynllunio (Cymru) y dylai camau cychwynnol edrych, gyda'r unigolyn cyfrifol, ar yr hyn ellid ei wneud i leihau unrhyw effeithiau andwyol ar amwynder cyhoeddus.  Y nod ddylai fod i unioni’r sefyllfa yn achos effeithiau arwyddocaol neu annerbyniol y toramod.[1]

7. Mae Nodyn Cyngor Technegol 11: Sŵn 1996 Canllawiau Cynllunio (Cymru) yn cadarnhau bod modd gorfodi amodau cynllunio, wrth ganiatáu cais, i leihau effaith andwyol sŵn datblygiadau neu newid defnydd ac atal graddfa aflonyddwch annerbyniol.

8. Mae Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 yn caniatáu i’r Cyngor gyhoeddi Hysbysiad Rhybudd Gorfodaeth cyn ystyried camau gorfodi lle mae siawns rhesymol y gellid caniatáu cais cynllunio ôl-weithredol.

9. Mae Llawlyfr Rheoli Datblygiadau 2016 Llywodraeth Cymru (diwygiwyd 2017) yn annog penderfyniadau a gweithredu prydlon lle mae datblygiad diawdurdod sefydledig yn aml yn fwy anodd i’w unioni. Dywed hefyd y dylai’r Cyngor adolygu’n rheolaidd effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y cydweithrediad rhwng adrannau.  Dylid cyflwyno trefniadau gweithdrefnol diwygiedig i’r broses asesu pan fydd angen er mwyn sicrhau nad yw oedi gweinyddol yn caniatáu i derfynau amser statudol ar gyfer cymryd camau gorfodi ddod i ben.

10. Mae Deddf Diogelu’r Amgylchedd 1990 yn diffinio Niwsans Statudol fel “unlawful interference with a person’s use or enjoyment of land”.  Mae’n gosod dyletswydd ar y Cyngor i ganfod Niwsansau Statudol a chymryd camau i ymchwilio i unrhyw gwynion y bydd yn eu cael.  Os oes Niwsans Statudol yn bodoli neu’n debygol o ddigwydd neu ddigwydd eto, rhaid cyhoeddi Hysbysiad Atal ar yr unigolyn sy’n gyfrifol a gall hynny fynnu bod y niwsans yn cael ei atal, ei leihau, ei liniaru a/neu ei gyfyngu i adegau penodol

[1] Cafodd hyn ei ymgorffori’n ddiweddarach mewn i, a’i ddisodli gan Lawlyfr Rheoli Datblygiadau Llywodraeth Cymru, 2016.

o’r diwrnod.  Mae methiant i gydymffurfio â Hysbysiad Atal yn drosedd lle mae gan y Cyngor ddisgresiwn i ystyried cymryd camau cyfreithiol.  Os yw gweithrediad masnachol yn gallu dangos ei fod wedi defnyddio’r dulliau ymarferol gorau i atal neu weithio yn erbyn effeithiau ei weithrediad, yna efallai y bydd ganddo amddiffyniad mewn achos yn ei erbyn.

11. Mae Deddf Cymdogaethau Glân a’r Amgylchedd 2005 yn galluogi’r Cyngor i ohirio cyhoeddi Hysbysiad Atal am hyd at 7 diwrnod i ganiatáu iddo i gymryd camau i berswadio’r unigolyn cyfrifol i atal, lleihau neu liniaru’r Niwsans Statudol.  Fodd bynnag, os na chaiff ei atal, yna rhaid i’r Cyngor fwrw ymlaen â chyhoeddi Hysbysiad Atal ffurfiol.

12. Mae Erthygl 8 o Ddeddf Hawliau Dynol 1998 yn rhoi’r hawl i unigolion i fynnu bod eu bywyd teuluol a phreifat yn cael ei barchu, gan gynnwys mwynhau eu cartref mewn heddwch.  Pan neu os gall hawliau unigolyn gael eu torri, rhaid i’r Cyngor gydbwyso hawliau Erthygl 8 yr unigolyn yn erbyn unrhyw hawliau neu fuddiannau sy’n cystadlu yn eu herbyn, i sicrhau nad yw unrhyw amhariad â hawliau’r unigolyn hwnnw yn “anghymesur”.

## Y digwyddiadau cefndir

13. Ym mis Awst **2012** nododd y Cyngor fod cyfleuster golchi ceir yn ei awdurdod (“y Cyfleuster Golchi Ceir”) yn gweithredu heb ganiatâd cynllunio.  Cafodd cais cynllunio ôl-weithredol (“y cais cyntaf”) ei gyflwyno ar 26 Tachwedd **2013**.  Nid oes gwybodaeth arall ar gael o’r adeg honno am y Cyfleuster Golchi Ceir, er yr ymddengys fod y cais cyntaf yn “annilys” a bod y Cyfleuster Golchi Ceir wedyn wedi newid dwylo.

14. Yn 2014 bu Rheolwr Gorfodaeth Cynllunio’n cyfnewid negeseuon ebost â’r Landlord ynghylch y Cyfleuster Golchi Ceir, gyda’r Landlord yn dweud ei fod yn achosi niwsans i’r tenant (“Mr R”) mewn eiddo cyfagos (“yr eiddo”).  Gofynnodd y Landlord i’r Cyngor weithredu gan fod y Cyfleuster Golchi Ceir yn achosi “sŵn parhaus ... tan yn hwyr fin nos, 7 diwrnod yr wythnos” a’i fod yn effeithio ar iechyd Mr R.

15. Ar 5 Awst cyfarfu’r Rheolwr Cynllunio a Swyddog Rheoli Llygredd (“y Swyddog Amgylcheddol”) â chynrychiolydd y Landlord, Mr R a Gweithredwr y Cyfleuster Golchi Ceir.  Nododd y Swyddog Amgylcheddol fod y sŵn a’r ysgeintiad dŵr a oedd yn dod o’r Cyfleuster Golchi Ceir o bosibl yn

cyfrif fel Niwsansau Statudol. Hefyd, roedd yn teimlo pe bai cais cynllunio ôl-weithredol wedi'i wneud heb roi sylw i'r mater hwn, roedd yn debygol y byddai'n cael ei wrthod oherwydd ei fod yn arwain at golled amwynder sylweddol i'r eiddo a'i fod yn cael effaith sylweddol ar Mr R. Fodd bynnag, credai pe byddai'r Cyngor yn cyhoeddi Hysbysiad Atal, a bod y Niwsans Statudol wedi parhau, yna byddai'r opsiynau oedd ar gael i'r Cyngor wedi'u cyfyngau. Yn gyntaf, gallai'r posibilrwydd y byddai'r Cyfleuster Golchi Ceir yn defnyddio'r amddiffyniad "dull ymarferol gorau" leihau'r rhagolygon realistig o sicrhau euogfarn. Yn ail, o gofio nad oedd y Cyfleuster Golchi Ceir wedi'i reoleiddio, byddai wedi bod yn amhriodol i'r Cyngor i annog neu fynnu eu bod yn gwario arian ar fesurau lliniaru ar yr un pryd ag yr oedd yn dweud eu bod yn gweithredu'n anghyfreithlon a'i fod yn annhebygol o gael ei reoleiddio. Yn drydydd, nid oedd sicrwydd y byddai unrhyw fesurau lliniaru posibl yn llwyddiannus nac yn ddigonol i basio'r broses gynllunio ac y gallant, mewn gwirionedd, fod angen caniatâd cynllunio.

16. Ym mis Tachwedd cynigiodd y Rheolwr Cynllunio fod Gweithredwr y Cyfleuster Golchi Ceir yn cael dau fis arall i ganfod safle arall addas i symud iddo. Nid yw'n amlwg a gafodd y penderfyniad hwn ei gyfleu i'r Tirfeddiannwr na Gweithredwr y Cyfleuster Golchi Ceir am nad oes dim tystiolaeth ddogfennol ar gael.

17. Erbyn 29 Ebrill **2015** dywedodd y Landlord wrth y Rheolwr Cynllunio fod Mr R "o dan straen mawr" a'i bod "yn ymddangos bod amlder y defnydd o'r cyfleuster golchi ceir ar gynnydd". Ar 25 Mehefin dywedodd y Landlord wrth y Swyddog Amgylcheddol yr hoffai wneud cwyn ffurfiol a gofynnodd am ei help yn y broses. Anfonodd y Swyddog Amgylcheddol ebost at y Swyddog Gorfodaeth Cynllunio ("y Swyddog Cynllunio Cyntaf") i gadarnhau ei fod wedi ymweld eto â'r eiddo ac nad oedd ei farn wedi newid. Fodd bynnag, yn hytrach na chyhoeddi Hysbysiad Atal ar y pryd awgrymodd y byddai'n fwy priodol ac effeithiol i'r Adran Gynllunio i gymryd camau gorfodi ac o bosibl i gyhoeddi Hysbysiad Stop, i atal y Niwsansau Statudol a mynnu bod y Tirfeddiannwr/Gweithredwr y Cyfleusterau Golchi Ceir yn cyflwyno cais cynllunio ôl-weithredol. Awgrymodd y gallai'r Cyngor wedyn ystyried gosod amodau priodol ar unrhyw ganiatâd cynllunio a all gael ei roi.

18. Er bod y Swyddog Cynllunio Cyntaf wedi nodi y byddai'n gofyn i Weithredwr y Cyfleuster Golchi Ceir roi'r gorau i weithredu a chaniatáu amser i gyflwyno cais cynllunio ôl-weithredol nid oes tystiolaeth bod unrhyw gamau

wedi'u cymryd tan 1 Medi.  Ysgrifennodd y Prif Swyddog Cynllunio a'r Amgylchedd ("y Prif Swyddog") at y Tirfeddiannwr i gadarnhau nad oedd caniatâd cynllunio mewn grym, bod y Cyfleuster Golchi Ceir yn torri Rheolaethau Cynllunio ac y dylai'r Tirfeddiannwr drafod y mater â'r Swyddog Cynllunio Cyntaf cyn cyflwyno cais cynllunio ôl-weithredol.

19. Yn ystod misoedd Hydref a Thachwedd, gofynnodd y Landlord a'r Swyddog Amgylcheddol am ddiweddariad gan y Swyddog Cynllunio Cyntaf. Ysgrifennodd y Landlord at y Swyddog Amgylcheddol ar 23 Tachwedd, gan ddatgan "Nid oes dim wedi digwydd...ac mae'r holl sefyllfa'n awr yn achosi straen a phryder i Mr R."  Anfonodd y Swyddog Amgylcheddol ebost at y Swyddog Cynllunio Cyntaf unwaith eto a chyfeirio'r mater at ei Arweinydd Tîm ("Arweinydd y Tîm Amgylcheddol").  Ddeuddydd yn ddiweddarach, gwnaeth y Prif Swyddog gais naill ai am gais cynllunio dilys gan y Tirfeddiannwr neu fod y Cyfleuster Golchi Ceir yn rhoi'r gorau i weithredu erbyn 23 Rhagfyr.  Cafodd y Swyddog Amgylcheddol a'r Landlord sicrwydd pe na bai'r Tirfeddiannwr yn cydymffurfio, y byddai Hysbysiad Gorfodaeth Cynllunio'n cael ei gyhoeddi.

20. Fodd bynnag, ar 8 Ionawr **2016** dywedodd y Swyddog Cynllunio Cyntaf wrth y Landlord nad oedd yn bwriadu cymryd camau gorfodi ar yr adeg honno gan ei fod yn rhagweld y byddai cais cynllunio ôl-weithredol yn cael ei gyflwyno, a fyddai'n cynnwys cynigion i leihau'r sŵn a'r ysgeintiad, a hynny o fewn pythefnos.  Bedwar diwrnod yn ddiweddarach, ysgrifennodd y Landlord at Arweinydd y Tîm Amgylcheddol yn gofyn iddi ystyried ei gŵyn ar fyrder a rhoi gwybodaeth ynglŷn â pha gamau yr oedd angen i'r Landlord eu cymryd i fynd â'r gŵyn ymhellach.

21. Ar 1 Chwefror, dywedodd Arweinydd y Tîm Amgylcheddol wrth Bennaeth Dros Dro'r Adran Gynllunio na allai Adran Iechyd yr Amgylchedd oedi dim mwy cyn gweithredu, o gofio faint o amser oedd wedi mynd heibio a dyletswydd y Cyngor o dan y Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd.  Cafodd ffeil cwyn Niwsans Statudol ei hagor a gofynnwyd i Mr R gwblhau taflenni i gofnodi gweithgarwch y Cyfleuster Golchi Ceir.

22. Cafwyd cais cynllunio ôl-weithredol gan Berchennog y Cyfleuster Golchi Ceir ("y Perchennog") ar 7 Ebrill ("yr ail gais").  Hysbyswyd y Perchennog fod yr ail gais yn annilys oherwydd gwybodaeth wedi'i hepgor a chamgymeriadau ar y ffurflen, a chaewyd y cais ar 15 Awst.

23. Ym mis Mehefin gofynnodd y Landlord am ddiweddariad unwaith eto. Ar 6 Medi ysgrifennodd y Swyddog Amgylcheddol at y Landlord, Mr R a'r Perchennog, yn cadarnhau bod y gwaith monitro'n parhau. Dychwelwyd llythyr y Perchennog at y Cyngor wedi'i farcio "wedi mynd i ffwrdd" ac fe'i ail-anfonwyd i gyfeiriad tramor ym mis Ionawr **2017.**

24. Ar 17 Mawrth cyhoeddodd y Swyddog Amgylcheddol Hysbysiadau Atal i'r Perchennog a Gweithredwr y Cyfleuster Golchi Ceir, a oedd yn datgan pe ceid tystiolaeth bod y Niwsansau Statudol yn parhau ar ôl 21 diwrnod yna gallai camau cyfreithiol pellach gael eu cymryd, gan gynnwys erlyniad posibl mewn Llys Ynadon. Ebostiodd y Landlord y Swyddog Amgylcheddol ar 15 Mai yn gofyn am ddiweddariad.

25. Ar 2 Mehefin disgrifiodd y Landlord hanes y gŵyn yn ôl i 2014 mewn ebost at y Prif Swyddog a'r Rheolwr Datblygu ar gyfer Cynllunio a Gorfodaeth ("y Rheolwr Datblygu") yn gofyn beth ellid ei wneud i ddatrys y mater. Ym mis Gorffennaf ymwelodd y Swyddog Amgylcheddol â'r eiddo unwaith eto ac ailasesodd y Niwsansau Statudol.

26. Ar 10 Awst ysgrifennodd y Swyddog Amgylcheddol at y Perchennog a Gweithredwr y Cyfleuster Golchi Ceir. Cadarnhaodd fod gwaith monitro wedi dangos bod amodau'r Hysbysiad Atal wedi'u torri ac felly roedd yr achos yn cael ei atgyfeirio at Adran Gyfreithiol y Cyngor i ystyried erlyn. Fodd bynnag, nid yw'r cofnodion yn dangos bod hyn wedi digwydd.

27. Ar 5 Rhagfyr ysgrifennodd y Landlord at y Prif Swyddog a'r Rheolwr Datblygu unwaith eto, gan nodi nad oedd wedi cael ymateb gan y naill na'r llall ohonynt ac nid oedd dim cynnydd wedi'i wneud ynglŷn â'r gŵyn. Yr unig ymateb sy'n hysbys oedd sicrwydd unwaith eto gan y Swyddog Amgylcheddol y byddai erlyn yn opsiwn a fyddai'n cael ei hystyried. Ar 19 Ionawr **2018** gofynnodd y Swyddog Amgylcheddol am gyngor gan yr Adran Gyfreithiol, gan nodi unwaith eto ei fod o'r farn mai Hysbysiad Stop fyddai'r trywydd gorau i'w ddilyn.

28. Ym mis Mai hysbyswyd y Cyngor gan fy swyddfa fy mod wedi cael cwyn ffurfiol gan y Landlord, un yr oedd Arweinydd y Tîm Amgylcheddol wedi bod yn ei disgwyl. Dangosodd negeseuon ebost mewnol fod y Swyddog Amgylcheddol yn dal i geisio trefnu cyfarfod â'r Adran Gyfreithiol hyd at 1 Mehefin. Fodd bynnag, erbyn hynny, roedd cwmni'r Perchennog

wedi'i ddiddymu ac roedd gan y Cyfleuster Golchi Ceir reolwyr newydd. Cytunwyd y byddai'r Swyddog Amgylcheddol yn drafftio Hysbysiad Ymholiad Statudol (sy'n rhoi gofyniad cyfreithiol ar y derbynnydd i ymateb) i gadarnhau pwy oedd perchennog y safle a'r Cyfleuster Golchi Ceir, yn ogystal â manylion cyswllt cyfredol y ddau barti.

29. Ar 20 Mehefin mewn ymateb i gais arall am ddiweddariad gan y Landlord, ymddiheurodd y Swyddog Amgylcheddol am yr oedi ac eglurodd fod y Cyngor wedi gorfod cychwyn y broses Niwsans Statudol unwaith eto am fod y busnes wedi newid dwylo. Gofynnodd eto i'r Adran Gynllunio i ystyried gweithredu i atal y Cyfleuster Golchi Ceir diawdurdod, ond sicrhawyd y Landlord y byddai'n parhau i weithredu ar reoli llygredd yr un pryd. Ddeuddydd yn ddiweddarach cyfarfu'r Swyddog Amgylcheddol ar hap â darpar berchennog newydd y Cyfleuster Golchi Ceir ("y Perchennog Newydd"), a ddywedodd ei fod yn awyddus i ddod o hyd i ffordd o barhau i redeg y gwasanaeth golchi ceir.

30. Ar 9 Gorffennaf ar ôl i fy swyddfa atgyfeirio cwyn y Landlord i'r Cyngor i gwblhau ei broses gwyno, cydnabu Swyddog Cwynion Corfforaethol ("y Swyddog Cwynion") y gŵyn a hysbysodd y Landlord ei bod yn gobeithio anfon ymateb llawn ddechrau Awst. Ar 20 Awst hysbysodd y Rheolwr Diogelu Busnesau ("y Rheolwr Amgylcheddol") y Swyddog Cwynion fod swyddogion "wedi cwrdd yn ddiweddar ... i ganfod ffordd ymlaen" a chytunodd i gyhoeddi Hysbysiad Ymholiad Statudol, ond ei bod yn debygol y byddai angen gwneud rhagor o waith monitro. Hefyd, roedd yn annhebygol y byddai deddfwriaeth amgylcheddol yn gallu datrys y broblem am nad oedd yn cynnwys y pŵer rheoleiddiol angenrheidiol i atal y busnes rhag gweithredu'n barhaol.

31. Y diwrnod canlynol, ysgrifennodd y Swyddog Cwynion at y Landlord ("yr ymateb cyntaf") i egluro nad oedd cynnydd wedi'i wneud gyda'r achos "fel y byddai'r Cyngor fel arfer yn ei ddisgwyl". Roedd yn cynnwys crynodeb o hanes y gŵyn, ond nid oedd yn eglur pam nad oedd cynnydd wedi'i wneud. Fodd bynnag, roedd yn cynnwys sicrwydd bod yr Adrannau Cynllunio ac Iechyd y Cyhoedd wedi ymrwymo i weithio â'i gilydd i roi sylw i'r pryderon a godwyd, ac y byddai'r Landlord yn cael ei ddiweddaru.

32. Ar 23 Awst agorodd y Cyngor ffeil achos Gorfodaeth Cynllunio newydd. Cydnabu'r Prif Swyddog yr "ymholiad diweddar" a wnaed gan y Landlord a gofynnodd iddo fod yn amyneddgar tra'r oedd y Cyngor yn ymchwilio. Ni chafwyd ymateb i gais y Landlord am amserlen ar gyfer cynnal yr ymchwiliad i'r gŵyn. Ar 20 Medi dywedodd y Swyddog Amgylcheddol ei fod wedi ei ddynodi fel pwynt cyswllt sengl i'r Landlord a chadarnhaodd fod y Perchennog Newydd yn bwriadu cysylltu ag ymgynghorydd acwsteg i'w gynghori ar sut y gellid goresgyn y problemau sŵn, cyn cyflwyno cais cynllunio i reoleiddio'r Cyfleuster Golchi Ceir ("yr ail ymateb").

33. Ddiwedd Ionawr **2019** cyflwynodd y Landlord gŵyn arall i fy swyddfa. Gan fod fy staff o'r farn nad oedd yr ymateb cyntaf na'r ail yn cynnwys eglurhad digonol pam ei bod wedi cymryd cymaint o amser i ystyried cymryd camau gorfodi, na phan nad oeddent yn rhoi sylw i'r ffaith bod cwyn ffurfiol y Landlord wedi cael ei hanwybyddu, gofynnwyd i'r Cyngor egluro'r sefyllfa bresennol. Nododd Swyddog Cwynion eu bod "yn credu nad oedd neb yn ymwybodol o'r cefndir". Cytunodd y Cyngor i roi ymateb llawn, ffurfiol, terfynol erbyn 21 Chwefror.

34. Ar 7 Chwefror dywedodd y Swyddog Amgylcheddol wrth y Perchennog Newydd y byddai'n rhaid gwneud cynnydd i ddatrys y materion ar frys, neu byddai'r Cyngor yn ystyried cymryd camau gorfodi i atal y Niwsansau Statudol ac i reoleiddio'r Cyfleuster Golchi Ceir. Nododd mai prif bryder y Cyngor oedd Mr R, a oedd wedi bod yn ddioddef y niwsans, a gofynnodd am ymateb o fewn 7 diwrnod. Cadarnhaodd y Perchennog Newydd fod yr Ymgynghorwyr Acwsteg wedi canfod datrysiad posibl. Fodd bynnag, pan gyflwynwyd y cynlluniau 3 diwrnod yn ddiweddarach nid oedd y Swyddog Amgylcheddol yn credu eu bod yn cynnwys asesiad sŵn priodol ac nid oedd o'r farn y byddai'r datrysiad a awgrymwyd yn datrys y broblem yn foddhaol.

35. Ar 15 Chwefror cyflwynodd y Cyngor Hysbysiad Tramgwydd Cynllunio i'r Perchennog Newydd. Bum niwrnod yn ddiweddarach cyfarfu Ail Swyddog Cynllunio a'r Swyddog Amgylcheddol â'r Perchennog Newydd a'i Ymgynghorwyr Acwsteg. Nodwyd mai'r datrysiad gorau fyddai codi rhwystr ar y ffens o amgylch yr eiddo. Y diwrnod canlynol anfonodd y Swyddog Amgylcheddol ebost at y Landlord ("y trydydd ymateb"). Rhoddwyd sicrwydd unwaith eto, er y byddai angen mwy o amser i ddatrys

y broblem, bod y Perchennog "yn ymgysylltu'n llawn yn y broses" ac roedd yn gobeithio y gellid dod â'r mater i ben yn fuan.  Pan holodd y Landlord pam nad oedd y Cyngor am gyhoeddi Hysbysiad Stop yn y cyfamser, dywedodd y Rheolwr Amgylcheddol fod y Cyngor yn credu bod Hysbysiad Tramgwydd Cynllunio'n fwy priodol, o ystyried awydd ymddangosiadol y Perchennog Newydd i ddatrys y problemau sŵn ac ysgeintiad.  Ar 12 Mawrth ymatebodd y Perchennog i'r Hysbysiad Tramgwydd Cynllunio ac erbyn 3 Mai roedd wedi cadarnhau ei fwriad i gyflwyno cais cynllunio o fewn y pythefnos nesaf.

36. Ar 22 Mai cyhoeddwyd Hysbysiad Rhybudd Gorfodaeth i'r Perchennog Newydd yn cadarnhau bod yn rhaid iddo naill ai gyflwyno cais cynllunio ôl-weithredol dilys, dangos tystiolaeth bod y toramod wedi parhau'n ddi-dor am fwy na 10 mlynedd neu roi'r gorau i weithredu'r Cyfleuster Golchi Ceir o fewn 14 diwrnod.  Ar 15 Gorffennaf cafodd cais cynllunio ôl-weithredol ("y trydydd cais") ei gyflwyno.

## Tystiolaeth y Landlord

37. Dywedodd y Landlord fod Mr R wedi'i effeithio'n ddrwg gan y sefyllfa a'i fod wedi'i rwystro rhag mwynhau ei gartref mewn heddwch, a hynny 7 diwrnod yr wythnos, am flynyddoedd.  Dywed na all ddefnyddio unrhyw ran o'i ardd heb gael ei wlychu gan ysgeintiad, a bod y sŵn o'r Cyfleuster Golchi Ceir i'w glywed ym mhob rhan o'r eiddo.  O ganlyniad i'r straen o orfod dioddef y Niwsansau Statudol gyhyd a hynny'n ddi-dor, mae Mr R yn awr yn dioddef o orbryder ac iselder.  Roedd y Landlord yn teimlo ei fod wedi bod yn amyneddgar iawn yn ei ymdrechion i ymgysylltu â'r Cyngor a dywedodd nad oedd yn deall pam fod yr Adran Gynllunio ac Adran yr Amgylchedd mor amharod i gymryd camau gorfodi priodol.

## Tystiolaeth y Cyngor

38. Roedd y Cyngor wedi cydnabod bod ei gofnodion Gorfodaeth Cynllunio cyn Awst **2018** yn anghyflawn ac roedd yn derbyn bod oedi wedi bod ar ran yr Adrannau Cynllunio a'r Amgylchedd cyn ymateb i bryderon y Landlord.  Haerodd na allai ymchwiliad ffurfiol i unrhyw Niwsans Statudol ddigwydd cyn cael cwyn ffurfiol, ond bod y ffeil achos Niwsans Statudol wedi'i hagor ar ôl i'r Landlord wneud cwyn swyddogol. Dywedodd fod yr oedi cyn monitro wedi deillio o anawsterau wrth geisio

cael mynediad i'r eiddo, pwysau gwaith, gan gynnwys galw mawr am gyfarpar monitro, ac anawsterau canfod pwy oedd y Tirfeddiannwr a lle oedd cael gafael arno.

39. Dywedodd y Cyngor hefyd fod y Rheolwr Datblygu yn newydd i'w swydd ac yn anghyfarwydd â hanes yr achos pan ysgrifennodd y Landlord ati ym mis Gorffennaf **2017**. Felly, roedd yn meddwl ei fod yn fater a oedd yn gysylltiedig â'r ail gais (yn **2016)** ac a oedd yn cael sylw eisoes ac ni fwriwyd ymlaen â'r mater o dan y Polisi Cwyno. Dywedodd y Cyngor y byddai, yn y dyfodol, yn rhannu gwybodaeth rhwng Adrannau i egluro yn ystod pob cam pa dîm sy'n gyfrifol am fwrw ymlaen ag unrhyw gamau gorfodi posibl. Dywedodd hefyd na fyddai'r naill adran na'r llall yn oedi yn y dyfodol cyn dechrau ymchwilio, hyd yn oes os oedd adran o'r farn y byddai'n well i adran arall gymryd yr arweiniad mewn unrhyw fater.

## Dadansoddiad a Chasgliadau

40. Cwynodd y Landlord am nad oedd y Cyngor wedi cymryd camau amserol a phriodol yn achos y Niwsansau Statudol. Rwyf yn **cadarnhau'r** elfen hon o'r gŵyn. Nid yw'r ddyletswydd ar y Cyngor i ymchwilio i Niwsans Statudol yn un ddewisol; cyn gynted ag yr oedd y Cyngor yn fodlon bod Niwsans Statudol yn bodoli roedd dyletswydd arno i gyhoeddi Hysbysiad Atal ar Weithredwr y Cyfleuster Golchi Ceir a dim, ond am 7 diwrnod y gellir gohirio'r rhwymedigaeth honno. Ni agorwyd ffeil achos Niwsans Statudol gan y Cyngor am 18 mis ar ôl i'r Niwsans Statudol gael ei ddwyn i sylw'r Cyngor. Hyd yn oed os wyf yn derbyn bod angen i'r Cyngor gael "cwyn ffurfiol" cyn y gallai ddechrau monitro, mae ei ddyletswyddau o dan Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 yn ddigon eglur. Hefyd, dywedodd y Landlord wrth y Rheolwr Cynllunio ym mis Ebrill 2014 fod y Cyfleuster Golchi Ceir yn niwsans i Mr R a'r eiddo, ac erbyn Mehefin 2015 roedd y Landlord wedi dweud wrth y Swyddog Amgylcheddol ei fod yn dymuno gwneud cwyn ffurfiol. Wn i ddim beth arall allai neu y dylai'r Landlord fod wedi'i ddweud i ddangos ei fod am wneud cwyn ac i'r Cyngor ymchwilio iddi.

41. Ar ôl ystyried y dystiolaeth ar ffeiliau'r Cyngor rwyf yn credu bod y Swyddog Amgylcheddol yn credu o ddifrif mai'r trywydd mwyaf effeithiol i ddelio â'r Niwsans Statudol oedd drwy'r broses gynllunio. Roedd awgrym

y Swyddog pan oedd materion yn newydd, i gyflwyno cais cynllunio ôl-weithredol i fynd i'r afael â'r Niwsansau Statudol a allai fod wedi'i wrthod neu ei ganiatáu gydag amodau, yn un rhesymol.  Hefyd, ni fyddai'r opsiwn arall o Hysbysiad Stop gyda neu ar ôl Hysbysiad Gorfodaeth Cynllunio wedi bod yn afresymol pe bai wedi gweithredu ar y mater mewn modd amserol.

42. Fodd bynnag, wrth i amser fynd yn ei flaen heb ddim gweithredu ar ran yr Adran Gynllunio, mae negeseuon ebost mewnol yn dangos bod y Swyddog Amgylcheddol a'r Arweinydd Tîm Amgylcheddol yn sylweddoli bod yr oedi i roi sylw i'r Niwsans Statudol yn afresymol.  Arweiniodd yr amharodrwydd amlwg hwn at ddiffyg brys syfrdanol, nid yn unig i agor ffeil achos Niwsans Statudol, ond hefyd i ddelio â'r mater yn briodol ar ôl i benderfyniad gael ei wneud yn y diwedd.  Rwyf yn derbyn bod rhai rhwystrau allanol dilys wedi bodoli dros y blynyddoedd, a oedd wedi amharu ar gynnydd yr achos, ond roedd hefyd sawl enghraifft o ohirio, colli cyfleoedd a diffyg gweithredu am fisoedd ar y tro.

43. Mae'n ymddangos na ofynnwyd am gyngor cyfreithiol amserol gan yr Adran Gyfreithiol, er bod sicrwydd penodol wedi'i roi i'r Landlord gan y Swyddog Amgylcheddol ym mis Awst 2017.

44. Er nad oedd Adrannau'r Amgylchedd na Chynllunio wedi gwneud unrhyw gynnydd gwirioneddol ers 2014, yn y diwedd penderfynodd y Tirfeddiannwr ddirwyn ei fusnes i ben a symud dramor a newidiodd y busnes ddwylo'n swyddogol ym mis Medi 2018 ac arweiniodd hynny wedyn at ragor o oedi sylweddol wrth i'r Cyngor geisio canfod pwy oedd yr unigolion cyfrifol a lle oedd cael gafael arnynt.  Mae hyn yn cyfrif fel camweinyddu.

45. Cwynodd y Landlord hefyd am nad oedd y Cyngor wedi cymryd camau priodol i ddelio â thorri rheolaeth gynllunio.  Rwyf yn **cadarnhau'r** elfen hon o'r gŵyn.  Yn amlwg, roedd y Cyngor yn ymwybodol mor gynnar â 2012 bod y Cyfleuster Golchi Ceir wedi agor er nad oedd cais wedi'u cyflwyno na'i gymeradwyo i newid defnydd o'r safle.  Fodd bynnag, mae'r wybodaeth am sut y cafodd y cais cynllunio cyntaf a'r ail eu hystyried yn annigonol ac mae hynny'n annerbyniol.  Er bod gan y Cyngor ddisgresiwn wrth ystyried cymryd unrhyw gamau gorfodi, nid oes modd o gwbl imi wybod, am nad oes cofnodion ar gael, a gafodd camau gorfodi eu hystyried

yn unol â’r ddeddfwriaeth a’r canllawiau perthnasol, nac a oedd y penderfyniad i beidio â gweithredu wedi’i wneud yn briodol.  Mae methiant Adran Gynllunio’r Cyngor i gyfathrebu ag Adran Iechyd yr Amgylchedd hefyd yn dystiolaeth o gamweinyddu.

46. Rwyf yn cydnabod bod y Cyngor wedi agor ffeil achos Gorfodi Cynllunio ym mis Awst 2018 a bod yr ymdrechion wedi dechrau wedyn i weithio â’r Perchennog Newydd, a oedd yn barod i gydweithredu i leddfu’r niwsans ac i wneud cais am ganiatâd cynllunio ôl-weithredol.  Nodaf hefyd gyngor yr Adran Gyfreithiol ei bod yn briodol, o dan yr amgylchiadau, i gychwyn y broses eto.  Rwyf yn falch o weld bod y Swyddog Amgylcheddol a’r Ail Swyddog Cynllunio ers y cyfnod hwnnw wedi cysylltu’n briodol â’i gilydd, ac â’r Perchennog Newydd, i geisio datrys yr achos a bod camau gorfodi priodol wedi’u cymryd.  Rwyf yn cydnabod bod y Cyngor o’r diwedd, felly, wedi rhoi sylw priodol i’r ystyriaethau y mae’n rhaid iddo eu cydbwyso yn achos Perchennog Newydd y Cyfleuster Golchi Ceir a Mr R.  Os nad yw materion wedi’u datrys eto, fodd bynnag, dylai’r Cyngor ystyried defnyddio’r pwerau amrywiol sydd ar gael iddo i ddatrys y materion hyn.  O ystyried bod cymaint o amser wedi mynd heibio rhaid i’r Cyngor ystyried pa opsiynau sy’n dal ar gael iddo a sicrhau ei fod yn gwneud defnydd llawn ohonynt i ddatrys y mater.

47. Yn y diwedd, ar ôl pwyso a mesur, mae’r diffyg cofnodion ynghyd â diffyg gweithredu ar ran y Cyngor yn ystod y 5 mlynedd cyn Awst 2018 yn awgrymu nad oedd wedi ystyried o ddifrif a oedd am gymryd camau gorfodi yn erbyn y Cyfleuster Golchi Ceir.  Mae hyn ynddo’i hun yn gamweinyddu a arweiniodd at anghyfiawnder sylweddol i’r Landlord ac i Mr R am na all y Cyngor egluro’r rhesymau sydd wrth wraidd ei weithredoedd (a’i ddiffyg gweithredu).  Hefyd, mae’n amhosibl delio’n llawn â’r gŵyn ac i archwilio a gwerthuso hanes yr achos yn yr Adran Gynllunio.

48. Nid fy swyddogaeth i yw penderfynu’n derfynol â yw corff cyhoeddus wedi mynd yn groes i hawliau dynol unigolyn drwy ei weithredoedd neu ddiffyg gweithredu.  Fodd bynnag, pan fyddaf yn canfod tystiolaeth o gamweinyddu sydd wedi achosi anghyfiawnder, gallaf ddod i’r casgliad bod hawliau dynol unigolyn wedi dioddef a gwneud sylwadau ar sylw corff cyhoeddus iddynt.  Roedd y Landlord wedi datgan yn eglur bod y Cyfleuster Golchi Ceir yn effeithio ar fywyd Mr R a’i bleser o’i gartref a’i ardd, a bod y straen yn cael effaith sylweddol ar ei iechyd.  Hefyd, mae’r

ffaith bod y Swyddog Amgylcheddol wedi canfod bodolaeth y Niwsans Statudol yn 2014 heb yr angen am fonitro yn dangos i ba raddau yr oedd y sŵn a'r ysgeintiad dŵr yn amharu ar Mr R. Rwyf o'r farn nad oedd y Cyngor wedi talu sylw dyladwy i hawl Mr R o dan Erthygl 8 o'r Ddeddf Hawliau Dynol, i fwynhau ei gartref mewn tawelwch a heddwch wrth iddo ystyried y pryderon a fynegwyd.  Mae hyn yn anghyfiawnder sylweddol i Mr R ac i'r Landlord, o safbwynt rhwymedigaethau'r Landlord i Mr R.  Mae'r ffaith bod y methiannau wedi parhau am dros 4 blynedd yn golygu bod yr anghyfiawnder i Mr R yn fwy difrifol fyth.

49. Cwynodd y Landlord hefyd nad oedd y Cyngor wedi ymchwilio nac ymateb i'w gŵyn gorfforaethol yn briodol.  Rwyf yn **cadarnhau'r** elfen hon o'r gŵyn.  Er fy mod yn cytuno bod y cysylltiadau cyntaf un, mewn gwirionedd, yn geisiadau am wasanaeth yn hytrach na chwyn ffurfiol, daeth yn amlwg yn fuan bod y Landlord yn rhwystredig oherwydd y diffyg ymateb a'r diffyg gweithredu.  Os rhywbeth, cafodd yr agweddau hyn eu hadleisio yn yr anawsterau a brofwyd gan y Swyddog Amgylcheddol pan oedd yn ceisio ymgysylltu â'i gydweithwyr yn yr Adran Gynllunio.  Cyn gynted ag y mynegodd y Landlord ei anfodlonrwydd â gweithredoedd yr Adran Gynllunio wrth y Swyddog Amgylcheddol, dylai ei bryderon fod wedi eu huwchgyfeirio neu, o leiaf, dylai gwybodaeth am y Polisi Cwyno fod wedi'i rhoi iddi.  Mae'n siomedig fod y Landlord wedi gorfod canfod drosto'i hun sut i uwchgyfeirio ei bryderon a'i fod wedi gorfod cysylltu â'r Cyngor droeon i gael diweddariadau, yn enwedig o ystyried y dystiolaeth bod rhai aelodau o'r staff yn gwbl ymwybodol o'r sefyllfa.

50. Bob tro roedd y Landlord wedi uwchgyfeirio ei bryderon a phob tro roedd yr Ombwdsmon wedi gofyn i'r Cyngor i ymateb, roedd y gŵyn yn cael ei hanfon yn ôl at y Swyddog Amgylcheddol, ac nid oedd y swyddog hwnnw'n ddigon amhleidiol nac â'r awdurdod i ganfod beth oedd wedi mynd o'i le, i sicrhau bod gwersi'n cael eu dysgu ac i gymryd camau i gywiro pethau.  O ganlyniad, roedd yr amserlen a gynigiwyd wedi'i chywasgu, roedd yn camliwio trefn y digwyddiadau ac roedd yn lleihau hyd yr oedi.  Hefyd, nid oedd yr ymatebion a roddwyd yn ddim mwy na diweddariadau achlysurol o'r sefyllfa ar y pryd, ac yn aml nid oedd y rheini'n cael eu rhoi heb i'r Landlord bwyso arnynt ac roeddent, bob tro, yn ymddangos yn annidwyll.

51. Mewn gwirionedd, agwedd yr uwch swyddogion tuag at gŵyn y Landlord a'i ohebiaeth uniongyrchol yw'r elfen fwyaf problemus o'r rhan hon o'r gŵyn, yn fy marn i. Gan gydnabod ei bod yn newydd i'r swydd, nid wyf yn derbyn nad oedd y Rheolwr Datblygu yn ôl ym mis Gorffennaf 2017 yn ymwybodol o'r achos a oedd yn dyddio'n ôl i 2014, gan fod ebost y Landlord yn olrhain hanes yr achos ac yn mynegi'n glir ei rwystredigaeth gyda'r Adran Gynllunio a'r diffyg cyfathrebu. Hefyd, nid oedd y Cyngor wedi gallu esbonio pam fod Arweinydd y Tîm Amgylcheddol, y Rheolwr Datblygu a'r Prif Swyddog i gyd wedi methu ag ymateb i ohebiaeth uniongyrchol gan y Landlord hyd yn oed ar ôl iddo ysgrifennu arnynt eto i gwyno nad oedd wedi cael dim cydnabyddiaeth nac ymateb.

52. Mae nodyn mewnol y Swyddog Cwynion ym mis Ionawr 2019 lle dywed nad oedd yn credu "bod neb yn ymwybodol" o hanes yr achos yn peri pryder am ddau reswm. Yn gyntaf, mae'n awgrymu nad oedd dim ymdrech wedi'i gwneud hyd at yr adeg honno i ymchwilio'n briodol i'r gŵyn; dylai adolygiad sydyn fod wedi dangos nad oedd cofnodion yr Adran Gynllunio'n bodoli a bod rhai'r Adran Iechyd yr Amgylchedd yn llawn cwynion. Yn ail, fodd bynnag, mae'r cofnodion sydd ar gael yn dangos bod staff, mewn gwirionedd, yn disgwyl i fy swyddfa ymyrryd, ond roeddent yn parhau'n amharod neu'n analluog i dderbyn perchnogaeth o'r sefyllfa ac i weithredu i'w hatal. Hefyd, ni allaf synhwyro dim cydymdeimlad at amgylchiadau Mr R a'r Landlord, na gwerthfawrogiad o'r ffaith bod y mater hwn wedi bod yn llusgo am o leiaf 6 blynedd. Yn y cyd-destun hwn roedd llythyr y Prif Swyddog ym mis Awst 2018, a oedd yn gofyn i'r Landlord "fod yn amyneddgar" tra'r oedd y Cyngor yn ystyried ei "ymholiad diweddar" yn gwbl anystyriol ac amhriodol.

53. Nid wnaeth y Cyngor hyd yn oed wedyn gymryd camau priodol i ymchwilio i holl amgylchiadau'r gŵyn na chynnig eglurhad llawn nac ymateb ystyrlon i'r Landlord pan ymatebodd o dan ei broses gwyno gorfforaethol. Mae diffyg perchnogaeth benodol ar lefelau uwch y Cyngor, y ffaith bod y methiannau wedi mynd ymlaen am gyhyd a'r diffyg sylw a roddwyd i'r anawsterau roedd Mr R yn eu profi i gyd yn achos pryder difrifol, a chredaf y dylent gael eu cyhoeddi er lles y cyhoedd.

## Argymhellion

54. Rwyf yn **argymell** y dylai'r Cyngor, o fewn mis i'r adroddiad hwn:

(a) Atgoffa staff perthnasol ar bob lefel yn y Cyngor o bwysigrwydd delio'n briodol â gohebiaeth, gan gynnwys cyfeirio unigolion sydd am wneud cwyn ffurfiol at y Tîm Cwynion Corfforaethol.

(b) Cynnig ymddiheuriad ystyrlon, yn ysgrifenedig, i'r Landlord ynghyd ag iawndal ariannol o £1000 i gydnabod y methiannau wrth ddelio â chwynion, ac amser a thrafferth y Landlord i olrhain y gŵyn am o leiaf 5 mlynedd.

(c) Cynnig ymddiheuriad ystyrlon, yn ysgrifenedig, i Mr R, ynghyd ag iawndal ariannol o £2,500 am y methiant i ddelio â'r Niwsansau Statudol ac i gydnabod amlygiad parhaus a maith Mr R i lefelau annerbyniol o sŵn a dŵr yn ysgeintio dros gyfnod o 5 mlynedd neu fwy.

55. Ym mis Ionawr 2019 adolygodd a diweddarodd y Cyngor ei bolisi ar Orfodaeth Cynllunio. Cytunodd y Cyngor hefyd y byddai, o fewn tri mis i adroddiad yr Ombwdsmon, yn:

(a) Rhannu'r adroddiad hwn a'i ganfyddiadau â staff perthnasol yn yr Adrannau Cynllunio, yr Amgylchedd a Chyfreithiol yn ogystal ag Arweinydd y Cyngor a'r Aelod Cabinet dros Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd, y Pwyllgor Cynllunio a Rheoli Datblygu a'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Amgylcheddol

(b) Canfod pa bwerau sydd ar gael o hyd iddo i ddatrys y materion a sicrhau ei fod yn gweithredu'r pwerau hynny'n llawn fel sy'n briodol i gyflawni datrysiad terfynol

(c) Adolygu ei Bolisi Gorfodaeth Gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd, i sicrhau ei fod yn parhau'n berthnasol, yn effeithiol ac yn cydymffurfio â chanllawiau, deddfwriaeth ac arferion gorau Llywodraeth Cymru, gyda phwyslais penodol ar Niwsansau Statudol

(d) Datblygu trefniadau gweithdrefnol ffurfiol ar gyfer cydweithrediad rhwng adrannau i wella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd cydweithredu rhwng adrannau, gyda phwyslais ar yr Adrannau Cynllunio, Cyfreithiol ac Iechyd yr Amgylchedd

(e) Adolygu'r Polisi Cwynion i sicrhau ei fod yn amlwg pwy ddylai fod â phrif gyfrifoldeb am ymchwilio ac ymateb i gwynion, yn enwedig pan fydd materion yn ymwneud â gwahanol adrannau o'r Cyngor

(f) Myfyrio ar sut y gellir ymgorffori ystyriaeth i hawliau dynol yn ei arferion gweithio wrth benderfynu a yw am gymryd camau gorfodi, gyda chyfeiriad penodol at reolaeth gynllunio ac ymchwiliadau i Niwsansau Statudol

(g) Adolygu ei sianelau cyfathrebu mewnol ac uwchgyfeirio i sicrhau bod staff yn gallu mynegi pryderon yn ystod eu gwaith o ddydd i ddydd a all wedyn gael eu rheoli mewn ffordd adeiladol, i annog perchnogaeth ac atebolrwydd gan osgoi 'diwylliant beio".

56. Rwyf yn falch o nodi bod **Cyngor Sir y Fflint** yn eu sylwadau ar y drafft o'r adroddiad hwn wedi cytuno i weithredu'r argymhellion hyn.



**Nick Bennett** 9 Ionawr 2020
Ombwdsmon

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
1 Ffordd yr Hen Gae
Pencoed
CF35 5LJ

Ffôn: 01656 641150
Ffacs: 01656 641199
Ebost: holwch@ombwdsmon-cymru.org.uk
Dilynwch ni ar Twitter: @Ombwdsmon